Iechyd Digidol Cynghorau Cymuned a Thref – Crynodeb o'r Cynllun Gweithredu

Argymhelliad	Cam Gweithredu
Argymhelliad 1: Diffinio'r gofynion 'digidol' yn glir	Penodi Rheolwr Prosiect Digidol i gyflawni'r rhaglen.
	Datblygu storfa ar-lein i gyhoeddi'r deunyddiau a ddatblygwyd drwy'r cynllun gweithredu hwn.
	Datblygu a chyhoeddi canllawiau gofynion digidol.
	Adolygu a diwygio'r *Pecyn Cymorth Cyllid a Llywodraethu* a'r *Canllaw i'r Cynghorydd Da* gyda dolenni cyswllt i'r storfa ar-lein.
Argymhelliad 2: Y Gymraeg	Ymchwilio i becynnau cyfieithu digidol a llunio a chyhoeddi canllawiau 'Sut i'.
	Datblygu a darparu dolenni cyswllt i ddod o hyd i gyfieithwyr a'u caffael. Datblygu canllawiau clir i nodi beth yw'r gofynion, a beth i'w hosgoi.
	Gweithio gyda'r sector i edrych ar y cyfleoedd i brif gynghorau rannu adnoddau cyfieithu gyda chynghorau cymuned e.e. ar sail contract yn ôl y gofyn, a rhoi diweddariad ffurfiol o'r canlyniadau.
Argymhelliad 3: Hyfforddiant a Chymorth	Diweddaru'r Arolwg Hyfforddiant Cenedlaethol i helpu i adnabod yr ystod a'r math o hyfforddiant digidol sydd ei angen ar gyfer y sector.
	Ystyried ac adolygu'r cynnig hyfforddiant digidol a diweddaru'r Strategaeth Hyfforddiant Cenedlaethol.
	Ystyried ac adolygu cyllid cymorth hyfforddi a datblygu presennol Llywodraeth Cymru gan gynnwys sgiliau digidol.
	Datblygu a chyhoeddi catalog o hyfforddiant ar-lein/am ddim sydd ar gael ar hyn o bryd mewn meysydd allweddol e.e. Office 365; Microsoft Teams.
	Ymchwilio a chyhoeddi'r canllawiau sydd ar gael ar raglenni digidol (e.e. rhaglenni Microsoft craidd).

Argymhelliad 4: Seilwaith	Ymchwilio a chyhoeddi'r gweithdrefnau presennol i gynghorau ar gyfer prynu offer TG. Datblygu a chyhoeddi canllawiau, gan gynnwys catalog o becynnau cymorth y gellir eu teilwra i faint y cyngor.
	Ymchwilio i ddewisiadau i gynghorau weithio mewn adeiladau cymunedol eraill pan fo'r seilwaith priodol ar gael (y sector cyhoeddus; trydydd sector etc). Cyhoeddi canllawiau yn y storfa.
	Cyhoeddi gwybodaeth am gwmpas band eang a'r rhaglen gyflwyno bresennol.
Argymhelliad 5: Caledwedd ac offer	Datblygu a chyhoeddi canllawiau '*Sut i*' ar gyfer cynghorau yn ymwneud â phrynu offer TG, sy'n briodol i faint a nodau'r cyngor.
	Datblygu a chyhoeddi canllawiau ar y cymorth ar gyfer prynu a chynnal a chadw caledwedd a meddalwedd.
Argymhelliad 6: Capasiti ac Arbenigedd	Ymchwilio a chyhoeddi'r dewisiadau ar gyfer darparu cymorth TG i gynghorau cymuned.
	Hyrwyddo gwytnwch TG drwy rannu arbenigedd a phrofiad o gyfuno adnoddau ar draws cynghorau cymuned.
	Edrych ar gyfleoedd i gynghorau cymuned rannu cymorth TG gyda phrif gynghorau.
	Diffinio'r isafswm cymwyseddau TG digidol sydd eu hangen ar gyfer staff cynghorau cymuned a'u cynnwys mewn templedi disgrifiad swydd diwygiedig.
	Cynnal archwiliad o sgiliau digidol i adnabod y cynghorwyr nad ydynt yn defnyddio dulliau ar-lein ar hyn o bryd. Rhoi cymorth drwy Cymunedau Digidol Cymru i alluogi'r cynghorwyr i ddatblygu ymwybyddiaeth ddigidol.

Argymhelliad 7: Newid Diwylliant	Datblygu strategaeth gyfathrebu hirdymor i annog cynghorau cymuned i ddefnyddio gwasanaethau digidol, a dechrau rhoi'r strategaeth ar waith.
	Adolygu gwefannau partner (Un Llais Cymru; Llywodraeth Cymru; Cymdeithas Clercod Cynghorau Lleol) a ddefnyddir i ddarparu gwybodaeth a chymorth i gynghorau cymuned, i sicrhau eu bod yn hygyrch ac yn bodloni'r isafswm safonau digidol sy'n ofynnol.
Argymhelliad 8: Arferion da	Datblygu rhwydwaith i rannu profiadau, adnoddau a dysg.